Cod Ymarfer i
Ddioddefwyr Troseddau

Canllaw i ddioddefwyr

SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL

Mae'r canllaw hwn yn gosod eich hawliau o dan y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau.

Mae'n dweud wrthych beth y gallwch ei ddisgwyl gan bob asiantaeth cyfiawnder troseddol ar ôl dod yn ddioddefwr trosedd.

Os nad ydych yn credu eich bod wedi cael y cymorth, y wybodaeth a'r cyngor a nodir yn y canllaw hwn, gallwch gwyno. Mae manylion sut i gwyno ar gefn y daflen hon.

Os nad ydych am dderbyn y gwasanaethau sydd yn y canllaw hwn, gallwch ddewis peidio drwy ddweud wrth swyddog yr heddlu rydych wedi bod mewn cysylltiad ag ef, neu'r person fydd yn delio â'ch achos ar yr adeg honno (os byddwch yn penderfynu peidio yn ddiweddarach yn y broses cyfiawnder troseddol). Cofiwch y gallwch gael eich cynnwys yn ôl ar unrhyw adeg.

Dioddefwyr diamddiffyn a dioddefwyr sy'n teimlo dan fygythiad

Gall rhai dioddefwyr dderbyn gwasanaeth ychwanegol o dan y Cod.

Dioddefwyr diamddiffyn yw pob dioddefwr o dan 17 mlwydd oed neu y mae ansawdd eu tystiolaeth yn debygol o fod yn is oherwydd bod ganddynt anhwylder meddwl neu anabledd dysgu neu anabledd neu anhwylder corfforol.

Dioddefwyr sy'n teimlo dan fygythiad yw'r rhai y mae ansawdd eu tystiolaeth yn debygol o fod yn is oherwydd eu bod yn ofni rhoi tystiolaeth neu'n gofidio am ei rhoi.

Os ydych wedi bod yn ddioddefwr trais yn y cartref neu ymosodiad rhywiol neu wedi colli aelod o'ch teulu drwy lofruddiaeth neu ddynladdiad, byddwch chithau hefyd yn cael eich diffinio fel dioddefwr diamddiffyn.

Byddwch yn cael gwybod os cewch eich ystyried yn ddiamddiffyn neu'n ddioddefwr sy'n teimlo dan fygythiad gan y bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol a manylion eich achos.

Mae'r ychydig dudalennau nesaf yn nodi beth y gallwch ei ddisgwyl gan bob asiantaeth. Mae'r siart ar dudalennau 7 ac 8 yn esbonio beth mae pob asiantaeth yn ei wneud.

Bydd yr heddlu yn:

- rhoi gwybod i chi os bydd ymchwiliad i'r trosedd **o fewn pum diwrnod** ar ôl i chi roi gwybod am y trosedd

- rhoi copi o'r daflen 'Dioddefwyr troseddau' leol i chi, neu'n gwneud yn siŵr y gallwch gael gafael arni

- trosglwyddo eich manylion i'r sefydliad gwirfoddol Cymorth i Ddioddefwyr, oni bai eich bod yn gofyn iddynt beidio â gwneud hynny (ni fydd hyn yn berthnasol i nifer fach o ddioddefwyr)

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi yn fisol hyd nes bydd yr achos yn cau

- rhoi gwybod i chi os bydd posibilrwydd y caiff yr achos ei adolygu yn ddiweddarach a gofyn i chi a hoffech gael eich hysbysu o unrhyw adolygiadau
- neilltuo Swyddog Cyswllt Teulu i chi os byddwch wedi colli aelod o'ch teulu drwy lofruddiaeth neu ddynladdiad, a rhoi pecyn cymorth i chi
- rhoi gwybod i chi os caiff rhywun ei arestio **o fewn diwrnod os ydych yn derbyn y gwasanaeth ychwanegol** neu **o fewn pum diwrnod i ddioddefwyr eraill**
- rhoi gwybod i chi os byddant yn rhyddhau rhywun a ddrwgdybir heb gymryd camau pellach **o fewn diwrnod os ydych yn derbyn gwasanaeth ychwanegol** neu **o fewn pum diwrnod i ddioddefwyr eraill**
- rhoi gwybod i chi os byddant yn rhyddhau rhywun a ddrwgdybir ar fechnïaeth a rhoi gwybod os oes unrhyw amodau mechnïaeth a phryd y caiff yr amodau hynny eu newid **o fewn diwrnod os ydych yn derbyn gwasanaeth ychwanegol** neu **o fewn pum diwrnod i ddioddefwyr eraill**

- rhoi gwybod i chi am benderfyniad a gymerant i gyhuddo neu i beidio â chyhuddo rhywun a ddrwgdybir **o fewn diwrnod os ydych yn derbyn gwasanaeth ychwanegol** neu **o fewn pum diwrnod i ddioddefwyr eraill**

- rhoi gwybod i chi os bydd y person yn cael rhybudd, cerydd, rhybudd terfynol neu hysbysiad cosb ar gyfer camymddwyn **o fewn diwrnod os ydych yn derbyn gwasanaeth ychwanegol** neu **o fewn pum diwrnod ar gyfer dioddefwyr eraill**.

Bydd yr Uned Gofal Tystion yn:

- rhoi gwybod i chi os bydd angen i chi roi tystiolaeth
- rhoi gwybod am ddyddiadau'r gwrandawiadau llys i chi
- rhoi copi o'r daflen 'Tystion yn y llys' i chi neu daflen berthnasol arall, os bydd angen i chi rhoi tystiolaeth

- rhoi gwybod am ganlyniadau llys i chi, er enghraifft os cafwyd y diffynnydd yn euog, **o fewn diwrnod** o gael y canlyniad gan y llys, ac esbonio unrhyw ddedfryd a roddwyd

- rhoi gwybod i chi os bydd y troseddwr yn apelio yn erbyn eu collfarn neu ddedfryd a rhoi gwybod i chi am ganlyniad unrhyw apêl.

Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn:

- rhoi gwybod i chi os byddant yn penderfynu peidio â chyhuddo rhywun mewn cysylltiad â'ch achos **o fewn diwrnod os ydych yn derbyn y gwasanaeth ychwanegol** neu **o fewn pum diwrnod ar gyfer dioddefwyr eraill**

- rhoi gwybod i chi os byddant yn penderfynu gollwng neu newid y cyhuddiadau ar ôl i rywun gael ei gyhuddo **o fewn diwrnod os ydych yn derbyn y gwasanaeth ychwanegol** neu **o fewn pum diwrnod i ddioddefwyr eraill**

- cynnig cyfarfod â chi i drafod eu penderfyniadau os yw'ch achos yn ymwneud â marwolaeth a achoswyd gan gamymddwyn troseddol, cam-drin plant, troseddau rhyw, troseddau a gythruddwyd gan hil neu grefydd neu droseddau ag elfen homoffobig neu drawsffobig
- sicrhau y bydd rhywun o Wasanaeth Erlyn y Goron yn cael ei gyflwyno i chi yn y llys ac yn ateb eich cwestiynau

- talu eich treuliau o fewn deg diwrnod ar ôl derbyn eich ffurflen gais am dreuliau
- ateb unrhyw gwestiynau manwl sydd gennych am y ddedfryd a roddwyd.

Bydd staff Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn:

- trosglwyddo gwybodaeth am ddyddiadau llys a chanlyniadau achos i'r Uned Gofal Tystion a'r heddlu fel y gallant roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi
- gwneud yn siŵr bod gennych ardal aros ar wahân a sedd yn y llys i ffwrdd o deulu'r diffynnydd, ble bynnag y bo'n bosibl
- ceisio sicrhau nad oes rhaid i chi aros mwy na dwy awr i roi tystiolaeth
- darparu man gwybodaeth yn y llys, ble bynnag y bo'n bosibl, fel y gallwch gael gwybod beth sy'n digwydd yn yr achos.

Bydd y Tîm Troseddau Ieuenctid yn:

- cysylltu â chi i esbonio eu rôl a gofyn i chi a hoffech ymwneud ag ymyriad cyfiawnder adferol, os yw'n briodol
- eich hysbysu am y ffordd mae'r achos yn datblygu os byddwch yn penderfynu eich bod am ymwneud â'r achos
- rhoi gwybodaeth i chi am wasanaethau cymorth priodol os hoffech ei chael.

Bydd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (Prawf) yn:

- cysylltu â chi os dedfrydwyd y troseddwr yn eich achos i 12 mis neu fwy am drosedd rhyw neu drosedd treisgar, yn cynnwys troseddwyr ag anhwylderau meddwl mewn rhai amgylchiadau

- rhoi gwybodaeth gyffredinol i chi yn ystod camau allweddol dedfryd y troseddwr, fel trosglwyddo i gategori gwahanol o garchar neu geisiadau am ryddhau. Ni fyddant yn gallu rhoi gwybodaeth fanwl i chi am droseddwyr, er enghraifft ym mha garchar y mae'r troseddwr, yr union ddyddiad rhyddhau na'r union leoliad ar ôl rhyddhau
- rhoi'r cyfle i chi ddatgan eich barn ac unrhyw bryderon am ba amodau trwyddedu neu ofynion goruchwylio y dylai'r troseddwyr fod yn destun iddynt pan gânt eu rhyddhau o'r carchar
- rhoi gwybod i chi amodau trwyddedu a gofynion goruchwylio y bydd yn amodol ar y troseddwr os byddant yn cysylltu â chi neu'ch teulu.

Bydd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (Carchardai) yn:

- darparu llinell gymorth y gallwch ei ffonio os bydd y troseddwr yn cysylltu â chi yn erbyn eich ewyllys neu os bydd gennych unrhyw bryderon ynghylch rhyddhau'r troseddwr.

Bydd y Bwrdd Parôl yn:

- ystyried unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r risg gyfredol i chi gan y troseddwr wrth benderfynu p'un a ddylid caniatáu neu argymell rhyddhau ai peidio, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y penderfyniad parôl
- ystyried unrhyw geisiadau a wnewch i osod amodau ar drwyddedu'r troseddwr ar ôl iddo gael ei ryddhau
- rhoi esboniad pan fydd amod trwyddedu yr ydych wedi gwneud cais amdano wedi'i newid neu heb ei gynnwys

- ystyried unrhyw gais gennych i amrywio neu newid yr amodau trwyddedu yn ddiweddarach.

Bydd yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn:

- ymateb i bob gohebiaeth am geisiadau o fewn 20 diwrnod o'u derbyn
- esbonio unrhyw benderfyniadau i wrthod neu leihau iawndal rydych wedi gwneud cais amdano
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am hynt eich cais os na fyddwch wedi cael penderfyniad o fewn 12 mis o wneud eich cais
- rhoi gwybod i chi bod hawl gennych i gael eu penderfyniad wedi'i adolygu a sut i wneud cais am adolygiad
- esbonio canlyniad yr adolygiad i chi a dweud wrthych sut i apelio i Banel Apeliadau Digolledu am Anafiadau Troseddol.

Bydd y Panel Apeliadau Digolledu am Anafiadau Troseddol yn:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y broses apelio
- ymateb i unrhyw ohebiaeth sy'n ymwneud ag achosion apelio o fewn 20 diwrnod o'u derbyn
- esbonio penderfyniad yr apêl i chi.

Bydd y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol yn:

- penderfynu p'un ai i gysylltu â chi os byddant yn adolygu collfarn neu ddedfryd mewn achos rydych yn gysylltiedig ag ef pan mae'n debygol y byddwch yn clywed beth sy'n mynd ymlaen
- rhoi gwybod am eu penderfyniad i chi os byddant yn cyfeirio'r achos at y Llys Apêl neu Lys y Goron.

Y BROSES CYFIAWNDER TROSEDDOL

Mae'r siart hon yn dangos y sefydliadau y gallech ddod i gysylltiad â hwy gan eich bod wedi rhoi gwybod am drosedd.



SUT I GWYNO

Asiantaeth	Sut i gwyno
Yr Heddlu	Gofynnwch yn eich gorsaf heddlu leol am daflen yn esbonio sut i gwyno. Dylech dderbyn ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith.
Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)	Ysgrifennwch at swyddfa'r CPS a ddeliodd â'ch achos, gan amlinellu eich cŵyn. Gellir cael manylion cyswllt ar gyfer swyddfeydd y CPS yng ngorsafoedd yr heddlu, canolfannau Cyngor ar Bopeth neu yn yr Yellow Pages. Bydd swyddfa'r CPS yn ceisio ymateb o fewn tri diwrnod gwaith.
Unedau Gofal Tystion CPS/heddlu ar y cyd	Ysgrifennwch at yr Uned Gofal Tystion a ddeliodd â'ch achos, gan nodi eich cŵyn.
Llys y Goron	Dylid gwneud cwynion yn ysgrifenedig i'r Swyddog Cwynion yn y llys. Caiff ymateb ei anfon o fewn pum diwrnod gwaith.
Y Llys Ynadon	Dylid gwneud cwynion yn ysgrifenedig i'r Swyddog Cwynion yn y llys. Caiff ymateb ei anfon o fewn pum diwrnod gwaith.
Tîm Troseddau Ieuenctid	Dylech ysgrifennu at Reolwr y Tîm Troseddau Ieuenctid yn eich Tîm Troseddau Ieuenctid lleol, yn esbonio eich cŵyn.
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (Prawf)	Dylech wneud eich cŵyn i'r rheolwr lleol neu'r Uwch Swyddog Prawf yn y swyddfa rydych wedi bod yn delio â hi.

Asiantaeth	Sut i gwyno
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (Carchardai)	Dylid cyfeirio cwynion at: Director General's Briefing and Casework Unit, HM Prison Service, Cleland House, Page Street, London SW1 4LN.
Bwrdd Parôl	Dylech gwyno yn ysgrifenedig i: The Complaints Officer, Parole Board for England and Wales, Grenadier House, 99-105 Horseferry Road, London SWIP 2DD.
Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol	Dylech gyflwyno eich cwyn yn ysgrifenedig i: The Manager, Customer Care Team, Criminal Injuries Compensation Authority, Tay House, 300 Bath Street, Glasgow G2 4LN. Dylech dderbyn ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith.
Panel Apeliadau Digolledu am Anafiadau Troseddol	Dylech wneud eich cŵyn o fewn tri mis o'r gwrandawiad drwy ysgrifennu at: Customer Service Manager, Criminal Injuries Compensation Appeals Panel, 11th Floor, Cardinal Tower, 12 Farringdon Road, London ECIM 3HS.
Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol	Dylech ysgrifennu at: The Complaints Manager, Criminal Cases Review Commission, Alpha Tower, Suffolk Street, Queensway, Birmingham BI ITT.

YR OMBWDSMON SENEDDOL

Os nad ydych yn fodlon ar yr ymateb a gawsoch i'ch cŵyn, gallwch fynd â'ch cŵyn i'r Ombwdsmon Seneddol trwy eich AS. Gallwch weld pwy yw eich AS yn **www.locata.co.uk/commons** neu drwy ffonio Desg Ymholiadau Tŷ'r Cyffredin ar **020 7219 4272**.

Os nad ydych yn siŵr sut i gwyno neu p'un a yw eich cŵyn yn fater y gall yr Ombwdsmon Seneddol helpu, gallwch gysylltu â'u Huned Cod Troseddwyr ar **020 7217 4013**, ewch i'w gwefan yn **www.ombudsman.org.uk** neu anfonwch ebost at: **VictimsCodeUnit@ombudsman.org.uk**.

O ran yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron, dim ond cwynion am y naill gorff neu'r llall sy'n ymwneud yn benodol â'u rhwymedigaethau o dan y Cod y gall yr Ombwdsmon Seneddol eu hystyried.

Os yw'ch cŵyn yn ymwneud â chamymddwyn ar ran yr heddlu ac nad ydych yn fodlon â'u hymateb, efallai y bydd yr Ombwdsmon Seneddol yn eich cynghori i fynd ar ei thrywydd gyda Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu yn lle hynny. Corff annibynnol yw Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu a sefydlwyd i ymchwilio i gamymddwyn o ran yr heddlu. Gall ystyried cwynion am ymddygiad yr heddlu p'un a ydynt yn ymwneud â'r Cod Ymarfer hwn ai peidio.

CJS Swyddfa Gartref CPS dca Adran Materion Cyfansoddiadol Cyfiawnder, hawliau a democratiaeth

System Cyfiawnder Troseddol: gweithio gyda'n gilydd er budd y cyhoedd

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol. Mawrth 2006.
ISBN: 1-84473-888-4. Cod Archebu VCOP/GUIDE/W. Cyf: 273755

www.cjsonline.gov.uk